GloballySusDCymru

Cyfathrebu Datblygiad Cynaladwy ar draws Cymru a'r Byd

Mai 2008

CROESO

Croeso i rifyn Mai, ar dai.

Gydag adeiladu carbon sero yn symud lan yr agenda, mae Gweinidogion y Cynulliad wedi ymrwymo i gyrraedd hyn mewn adeiladau newydd yng Nghymru erbyn 2011.

Sut gallwch chi wneud cyfraniad? P'un ai gallwch ynysu'n well, gosod addasiadau i'ch cartref neu ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon, mae llu o erthyglau tu mewn i'ch helpu ar y ffordd.

Hoffwn ddiolch i Janice Collard o'r Big Issue a Haf Roberts o Gwalia am eu cyfraniadau i'r rhifyn hon a diolch yn arbennig i Joyce Gervis o Galch Tŷ -Mawr am ei gair o gall y mis yma!

Fel arfer, mae eich digwyddiadau tua'r cefn. Mis yma, pam na ewch i 'Byw yn yr 21ain Ganrif: Atebion i Newid Hinsawdd' ym Mharc Gwledig Bryngarw ar y 28 ain gyda Chymru Gynhaliol?

Byddwn yn ôl mis Mehefin gyda llu o erthyglau ar iechyd.

Pob hwyl

Helen Nelson
Cyfarwyddwr Gweithredol

Cynnal Cymru - Sustain Wales
www.cynnalcymru.com /
www.sustainwales.com

Cyfranwch i'r rhifyn nesaf

Danfonwch eich newyddion i: **newyddion@cynnalcymru.com**

NEWYDDION CYMRU

Tai: Beth Yw'r Mater Mawr

Mae amserlen amrywiol gan Janice Collard, Uwch Swyddog Gwasanaethau Gwerthwyr y Big Issue yn Abertawe, o helpu gyda cheisiadau cartref i waith ymyrryd mewn argyfwng - does byth diwrnod tawel yn y swyddfa!

'Rwy'n gwneud llawer o waith estyn allan, gwirfoddoli amser brecwast, deffro pobl gyda diod boeth; mynd gyda phobl i apwyntiadau meddyg neu i'r llys, aml er mwyn tawelu eu meddwl bydd rhywun yn gwrando arnynt.'

'dyw pobl ddim gwastad yn deall pan fyddwn yn son am ddigartrefedd, nid yn unig y cysgwyr allan ar y stryd da'n ni'n sôn amdanynt; mae'r digartref cudd hefyd - rhai sy'n gorfod aros gyda ffrindiau a gwastad yn symud ymlaen, eraill sy'n wynebu dadfeddiant gan nad ydynt wedi cwblhau'r ffurflenni budd-dal tai.'

Rôl Janice yw penderfynu ar yr ateb gorau i bob achos unigol a, lle bo angen, eu cyfeirio at y sefydliad mwyaf addas.

'Rydym yn gweithio ar y rheng flaen ac yn bwydo i mewn i nifer o rwydweithiau eraill, er enghraifft fforymau cysgwyr ar y stryd a Grŵp Cysgu ar y Stryd llywodraeth leol Aberystwyth.' Mae bod yn rhan o rwydweithiau yn eu galluogi i weithio ledled Cymru hefyd.

'lleolwyd ein gweithwyr gwasanaethau yn y de ond mae gwerthwyr ganom yn y canolbarth a'r gogledd hefyd. Gyda rhwydweithiau da gallwn godi'r ffôn a chyfeirio rhywun i'r gwasanaeth iawn.'

Bydd pob achos yn wahanol ac angen math wahanol o gymorth. Mae yna ystod eang o resymau pam gall rhywun fod heb gartref iddyn nhw'u hunain. Fel eglura Janice:

'Mae camddefnyddio cyffuriau yn broblem fawr ac, heb ddigon o arian i drin pobl â dibyniaeth, mae'r rhestr aros yn hir ymhob ardal.

'Bydd pobl sy'n ddigartref yn aml ddioddef â phroblemau afiechyd meddyliol, efallai o ganlyniad i gamdriniaeth yn y cartref, neu maint wedi profi problemau mewn perthynas neu gyda theulu.'

'Rydym hefyd yn gweld adfeddiant cartrefi yn cynyddu. Mae pobl yn prynu tai ond ni allant fforddio'u cynnal nhw; mae'n ddrud gyda biliau nwy a thrydan yn cynyddu. Mae gan bobl fwy o ddyled nawr hefyd ac mae gamblo wedi cynyddu.'

Rhan bwysig o waith y Big Issue yw siarad ag ystod o sefydliadau i geisio atal y sefyllfaoedd yma rhag digwydd yn y lle cyntaf.

'Mae yna ddiffyg cartrefi fforddiadwy yng Nghymru,' meddai Janice. 'Does dim cartrefi cyngor yn cael eu hadeiladu. Dyw pobl methu fforddio prynu tai ac rydym yn aml weithio â pherchnogion nad ydynt yn cymryd DSS. Mae rhai perchnogion yn dda iawn ond yn anffodus dyw eraill ddim mor dda.

'Mae byrddau bond yn helpu, gyda chymorth yr awdurdod lleol a Wallich, meant yn talu'r bond ar eiddo gosod i helpu pobl mewn i gartrefi.'

“Tu ôl i bob gwerthwr mae stori”

Mae’r Big Issue wedi gwneud gwaith arbennig ar hyd y blynyddoedd, fan lleiaf gan gadw’r mater ym meddyliau pobl.

‘Rwy’n gweithio ar lawr gyda chysgwyr ar y stryd ac unigolion heb gartref iawn. Mae’n golygu gallaf eu helpu yn ôl i waith a’u helpu i ddarganfod y person yr oeddynt cynt! Maent yn dod o bob cefndir. Tu ôl i bob gwerthwr mae stori.”

‘Mae hanes o droseddi gan rhai hefyd. Mae hwn yn ffordd gyfreithiol iddynt ennill arian i dalu am wely a brecwast neu rent hyd yn oed. Mae’n gymhelliad ariannol. Rydym am gynnig help llaw iddynt helpu eu hunain.

‘Mae’n helpu pobl yn ôl i waith, yn cynyddu eu hyder a hunan barch. Maent yn datblygu perthynas gyda’r cwsmeriaid.’

“Rydym am gynnig help llaw iddynt helpu eu hunain.”

Mae system ‘buddy’ ar gyfer gwerthwyr newydd ond nid oes hyfforddiant ffurfiol iddynt. Y cwbl a ofynnwyd yw eu bod yn dilyn cod ymddygiad. Mae’n ffaith drist fod nifer o werthwyr yn dioddef camdriniaeth eiriol wrth werthu’r cylchgrawn, ond dro ar ôl tro maent yn arddangos grit rhyfeddol ac yn delio a’r sefyllfaoedd yn hynaws dros ben.

‘Rydym yn darparu tystlythyrau pan fydd gwerthwyr yn barod i symud ymlaen. Meant yn ennill sgiliau cadw amser, delio ac arian a gofal cwsmeriaid. Roedd un gwerthwr mor dda wrth ei waith ger archfarchnad yng Nghastell Nedd, iddo ennill swydd o fewn y siop!’

Cyn hir bydd Janice a’i chyd-weithwyr yn cynnig NVQ hyfforddiant gofal cwsmeriaid i annog y cam hwnnw ymlaen.

‘Rydym yn gweithio gyda’r Groes Goch Brydeinig i beilotio cwrs achrededig. Bydd hyn yn arwain at werthwyr yn gwirfoddoli i hyfforddi eraill; mae ganom ychydig o gyllid.’

Felly, beth fyddai dymuniadau Janice?

‘Hoffwn i berchnogion preifat fod yn fwy realistig gyda’u rhent ac ymwybodol nad ydy deiliaid DSS yn fwy o risg!

‘Hoffwn weld lawer mwy o gartrefi fforddiadwy. Mae digonedd o fflatiau yn codi ond gall neb eu fforddio; hyd yn oed pobl mewn gwaith! Hoffwn weld cyfran o bob adeilad newydd yn mynd tuag at gartrefi fforddiadwy.

‘Byddai’n hyfryd pe bai mwy o wasanaethau ar gael yn yr un lle - shop-un-stop gall ymdrin â materion iechyd, cartrefol a chymdeithasol yn yr un lle, gyda llety dros nos i’r sawl mewn argyfwng. Ar y funud rhaid i bobl fynd yma ac acw ac mae’n mynd yn ddryswch. Mae’n waeth fyth mewn ardaloedd gwledig.’

Ond mae rhai newidiadau am y gorau yn dechrau digwydd, gwena Janice:

‘Mae’n dechrau dod, ychydig ar y tro. Mae Grŵp Cysgwyr ar y Stryd Castell Nedd Port Talbot wedi llwyddo i sefydlu canolfan adnoddau, lle i bobl sydd yn byw ar y stryd i fynd.

“Mae pobl yn meddwl mai gwerthu cylchgrawn yw’r cwbl a wnawn ni”

‘Rydym yn ceisio codi ymwybyddiaeth o hyd. Mae pobl yn meddwl mai gwerthu cylchgrawn yw’r cwbl a wnawn ni. Mae yn LAWER mwy yn digwydd na welwch chi! Beth bynnag y cymera, rydym yn gweithio a phobl nes iddynt gyflawni'r hyn hoffent o fywyd. Ni fydd pawb a ddaw trwy’r drws yn gwerthu’r Big Issue - ni fydd cymaint â chwarter ohonynt.’

Mae Janice yn ddiolchgar i’r holl sefydliadau y mae’r Big Issue yn gweithio gyda.

‘Rydych angen cymorth eich rhwydweithiau ac, yn eu tro, meant yn eich helpu i wneud swydd well.’
Mae’r Big Issue yn sefydliad dielw.

Os hoffech gysylltu â Janice byddem yn falch i’ch cysylltu chi.

Am wybodaeth bellach, gwelwch Big Issue Cymru.

Gwirfoddolwch gyda Big Issue Cymru drwy werthu’r cylchgrawn i’r gwerthwyr yn swyddfa’r Big Issue, neu ymweld â gwerthwyr ar y stryd wrth iddynt weithio, gwelwch Gwirfoddoli Cymru.

Chwilio am Sêr Bach gyda Lucy Owen

Yn ystod Wythnos Cewynnau Go Iawn yn Ebrill bu Craff Am Wastraff, Cymru Gynhaliol a'r fam newydd Lucy Owen, yn annog rhieni i ddefnyddio cewynnau go iawn a lansio chwiliad am fabanod i ymddangos mewn calendr yn eu gwisgo.

Meddai Gwenan Davies, Craff Am Wastraff 'Mae cewynnau go iawn wedi newid - does dim golwg o biniau cau ac maent mor rhwydd i'w golchi, heb orfod socian neu ferwi a gydag arbediad hyd at £500 maent yn ffeind i'ch pwrs hefyd.'

Meddai Lucy Owen 'Pan ystyriwch faint o wastraff sy'n mynd i dirlenwi gallwch weld y gwahaniaeth gall cewynnau go iawn eu gwneud.'

Os gall eich babi chi fod yn wyneb i gewynnau go iawn, danfonwch lun diweddar o'ch plentyn yn gwisgo cewyn go iawn gydag enw a manylion cyswllt i Waste Awareness Wales, Golley Slater, Wharton Street, Wharton Place, Caerdydd, CF10 1GS.

Creu Cymuned Newydd i Gymru

Ar safle 200 erw ger Pen-y-bont ar Ogwr, mae gwaith ar y gweill am ddatblygiad £225m i greu pentref ar gyfer y 21ain canrif, yn dilyn patrwm pentref traddodiadol wrth fabwysiadu safonau uchaf cynllunio tai a'r amgylchedd. Fe'i dyluniwyd i feithrin teimlad o gymuned a hunaniaeth leol gryf, lle mae pobl yn fwy pwysig na cherbydau, gyda rhwydwaith o strydoedd sydd yn hybu pobl i gerdded a beicio gyda llecynnau agored, gwyrdd, parciau a meysydd chwarae.

Bydd gan y pentref ganolfan siopa bach ar gyfer y bobl leol a bydd cyfleusterau eraill yn cynnwys canolfan gymunedol ac ysgol gynradd ar gyfer 330 disgybl. Dywedant y bydd 150 o’r 1500 cartref newydd ym Mharc Derwen, adeiladwyd gan Gymdeithas Tai Cymru a'r Gorllewin, yn dai fforddiadwy.

Ynysiad Gwlân Defaid Cymreig Cyntaf

Bydd disgyblion Ysgol Gynradd Brecon Road ym Merthyr Tudful yn gynnes neis yn eu hymestyniad ysgol newydd gyda'i ynysiad gwlân defaid lleol.

Meddai Mrs Lambe, Prifathrawes yr ysgol, yr ysgol gyntaf i deimlo lles y deunydd newydd, 'Byddwn yn gadael rhan o'r wal heb ei blastro i'r plant gael gweld y deunyddiau adeiladu, gan greu ymwybyddiaeth amgylcheddol a dealltwriaeth bod siawns fod yr ynysiad yn yr ysgol wedi dod o'r defaid y gwelwn yn pori'n lleol!'

Meddai Nigel Gervis o Ty-Mawr 'Dewisodd cwmni Howies Organic Clothing hwn ar gyfer eu swyddi, ac mae teuluoedd yn dechrau gweld lles economaidd. Gyda 250mm o Thermafleece mewn llofft, gall dy leihau costau gwresogi o 25% ac allyriadau CO2 o dunnell y flwyddyn!

Lansiwyd ynysiad gwlân defaid Thermafleece gan gwmni Ty-Mawr o Aberhonddu yn Arddangosfa Wonderwool, Llanelwedd yn Ebrill. Cysylltwch â Joyce Gervis, Ty-Mawr ar 01874 658000, e-bostiwch joyce.gervis@lime.org.uk neu gwelwch www.lime.org.uk.

Diwrnodau Hyfforddi Athrawon yn CAT

Bob blwyddyn bydd miloedd o ddisgyblion, myfyrwyr ac athrawon yn teithio i'r Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) innau am y dydd neu i breswylio mewn caban eco. Fe gymerant ran mewn gweithdai ac yn derbyn profiad o arddangosfeydd ymarferol ynni adnewyddol ac adeiladau eco.

Ond, mae'r tîm addysg hefyd yn paratoi ystod o ddiwrnodau hyfforddi ar gyfer athrawon ynghylch Addysg Datblygiad Cynaladwy a Dinasyddiaeth Fydol (ESDGC) i'w rhedeg yn yr Hydref. Bydd y diwrnodau yn helpu athrawon gyda'r cwricwlwm newydd gyda chanolbwynt ar sut gall pob pwnc gysylltu â ESDGC.

Anelir y cyrsiau at ddysgu cam allweddol 3 a 4 (ac un diwrnod ar gyfer athrawon cynradd) ond bydd peth o'r dysgu yn darparu digon o wybodaeth i alluogi athrawon i ddysgu ar lefel uwch neu iau. E-bostiwch education@cat.org.uk neu ffoniwch 01654 705983. Gwelwch www.cat.org.uk/education.

Canllaw Ysgolion Masnach Deg

Os oes diddordeb gan eich ysgol chi gymryd rhan mewn gweithgareddau masnach deg, neu ddod yn ysgol masnach deg, mae pecyn gwybodaeth ar gael i'w lawrlwytho neu archebu o http://www.fairtrade.org.uk/schools/support%5Fresources/ neu ffoniwch 0207 4055 942 (Saesneg) neu 07734 939 370 (Cymraeg). Mae copïau ar gael mewn Cymraeg a Saesneg.

Ydych Chi yn Abertawe ac yn Cymryd Camau i fod yn Gynaladwy?

Mae Gwobrau Abertawe Gynaliadwy yn cydnabod, gwobrwyo a hyrwyddo sefydliadau, grwpiau ac unigolion lleol sydd wedi gwneud ymrwymiad ymarferol i

arfer amgylcheddol da a datblygiad cynaladwy. Caiff ffilm ei wneud o'r prosiectau ar y rhestr fer, i'w dangos yn y cyflwyniad mis Gorffennaf. Bydd enillwyr yn derbyn tlws gwydr gan grefftwr lleol.

Categorïau:

- Prosiect Cymunedol
- Sector Busnes
- Asiantaeth Gyhoeddus
- Ysgolion
- Hyrwyddwr - ar gyfer cyfraniad unigol eithriadol
- NEWYDD Enillydd Cyffredinol a noddir gan Asian taeth yr Amgylchedd Cymru.

Enillwyr blwyddyn ddiwethaf: oedd: Pitstop Wash Ltd., Ysgol Gynradd Hendrefoilan, Fforwm Teithio Amgen Bae Abertawe, Rhwydwaith Gower Explorer, a Phrosiect Ailddefnyddio, Ailgylchu More Green. Mae'r cynllun yn agored i bawb yn Ninas a Sir Abertawe. Os ydych yn gwneud eich rhan, rydych yn haeddu cydnabyddiaeth - rhowch gynnig nawr!

Gallwch lawrlwytho ffurflen gais a chanllawiau yn www.sustainableswansea.net. Neu e-bostiwch: Helen@environmentcentre.org.uk, neu ffoniwch 01792 480200. Dyddiad Cau yw Gwener, 30 Mai 2008.

Cyfle i Gwmnïau Edrych ar ôl Ein Byd Natur

Mae Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Glwypdiroedd wedi lansio cynllun newydd i helpu cwmnïau lleol warchod ein byd naturiol. Ynghyd a thocynnau rhad, bydd staff cwmnïau sy'n cymryd rhan yn y cynllun partneriaeth gorfforaethol yn gallu mwynhau diwrnod o waith cadwraeth ymarferol, mynd am dro fel cwmni gyda thywysydd preifat neu dderbyn cyflwyniad gan arbenigwr o'r Ymddiriedolaeth yn eu swyddfeydd.

Meddai Nigel Williams, rheolwr Canolfan Gwlypdir Cenedlaethol Cymru 'I gwmnïau sydd yn rhannu ein hymroddiad i'r amgylchedd, bydd dod yn bartner yn dechrau perthynas agos a bydd yn gyfle i wneud gwahaniaeth buddiol i'r amgylchedd yma yn Ne Orllewin Cymru.

Mae'r cyfle yn agored i bob busnes ac yn ffordd berffaith i roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned a'r amgylchedd wrth gynnig rhywbeth o les i'ch staff. Cysylltwch â Ruth O'Malley ar 01554 741087 neu e-bostiwch ruth.omalley@wwt.org.uk.

Cywion Bach y Gwanwyn

O 24 o Fai bydd Canolfan Gwlypdir Cenedlaethol Cymru yn Llanelli yn cynnal teithiau arbennig 'Downy Ducklings' lle gall ymwelwyr fynd ar daith tu hol i'r drws ym meithrinfa'r adar dwr. Yma caiff yr wyau eu deor a gall ymwelwyr weld cannoedd o hwyaid bach o wahanol faint a ffurf o'i genedigaeth i oedolaeth.

Treulia'r cywion bach eu hwythnosau cyntaf yma, gyda'r wardeniaid yn ymddwyn fel eu rhieni, yn eu bwydo, cadw'n gynnes a rhoi digon o ddŵr iddynt nes eu bod yn ddeufis oed cyn mynd yn ôl i'r gwlypdir a dod yn rhan o raglen fagwraeth gaeth yr Ymddiriedolaeth Adar Gwyllt a Glwypdiroedd.

Trefnir teithiau ac achlysuron arbennig yng Nghanolfan Gwlypdiroedd Cymru bob dydd o 24 Mai - 1 Gorffennaf a phob dydd Sul yn ystod Mehefin. Gwelwch www.wwt.org.uk/ducklings.

Ynni Craff

Mae'r Gymdeithas Gwerthu Ynni (ERA) wedi croesawi adroddiad newydd Pwyllgor Cynaladwyedd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Lleihau Allyriadau Carbon mewn Cartrefi yng Nghymru' a'i hargymhellion i leoli mesuryddion ynni craff ym mhob cartref yng Nghymru.

Bu'r ERA llynedd yn adrodd tystiolaeth i'r Pwyllgor ar sut gallai'r mesuryddion helpu cwsmeriaid ganfod gwastraff ynni yn eu cartrefi.

Mae'r dechnoleg yn galluogi cwsmeriaid i weld eu defnydd ynni mewn amser real, cost eu defnydd ynni a'u heffaith ar yr amgylchedd. Gall gwerthwyr ynni cyfathrebu'n uniongyrchol gyda'r mesuryddion hefyd yn sicrhau biliau cywir. Cysylltwch â Rachael Mullins ar 029 2055 6148 neu Gwyn Thomas ar 029 2055 6145 yn WEPR.

Canolfan ECO'n Lansio Gwefan Newid Hinsawdd Cymru

Lansiwyd gwefan gan Ganolfan ECO Gorllewin Cymru yn Rhagfyr a'i datblygwyd gan athrawon ar gyfer athrawon, i dynnu sylw at effaith newid hinsawdd yng Nghymru. Y safle dwyieithog, www.newidhinsawddcymru.org.uk, yw'r unig adnodd ar-lein ar newid hinsawdd yng Nghymru sy'n cynnwys deunyddiau cwricwlwm i bob grŵp oedran oed ysgol.

Meddai Tim Brew, Rheolwr Rhaglen Addysg y prosiect 'Rydym am i gydweithwyr ddefnyddio'r gwefan yn yr ystafell ddosbarth, nid dim ond fel man cyfeirio.'

Cefnogir y prosiect gan Gronfa Datblygu Gynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru, a weinyddir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, a TYF Adventure yn Nhyddewi trwy'r Cynllun '1% i'r Blaned'.

Meddai Rheolwr Gyfarwyddwr TYF Adventure, Andy Middleton 'Rhaid defnyddio gwyddoniaeth gadarn ar yr hyn sy'n digwydd, a gallai ddigwydd, ar gyfer addysgu'r genhedlaeth nesaf o bleidleiswyr, perchnogion cartrefi, gyrwyr car a defnyddwyr yn gyffredinol.' Cysylltwch â'r tîm Addysg yng Nghanolfan ECO Gorllewin Cymru ar 01239 821903 neu e-bostiwch tim@ecocentre.org.uk.

Cais Cynllunio Pentref Eco Arlein

Gallai pentref eco arloesol cael eu creu yng Ngorllewin Cymru os ceir caniatâd gan gynllunwyr i'r cais a'i rhoddwyd o flaen Cyngor Sir Benfro yn ddiweddar o dan bolisi datblygu effaith-isel newydd y cyngor. Mae Lammas yn cynnig adeiladu naw tyddyn ac adeilad cymunedol ar 76 erw o goetir a phorfa ger pentref Glandŵr. Mae cynlluniau yn cynnwys tai o wellt, tai dan bridd, tai crwn o bren a theras eco.

Ni fydd y prosiect wedi cysylltu i'r grid gyda chyflenwad dwr o darddell leol, trydan o uned trydan-hydro a thanwydd o gnydau biomas. Ynghyd a bod yn hunan cynhaliol,

bydd gofyn i drigolion pob tyddyn rhedeg menter yn seiliedig ar y tir er mwyn bodloni meini prawf llym y cynllunwyr. Bydd mentrau'n cynnwys cynhyrchu siolau o gnwd llin, bridio mwydod compost ynghyd a chyflenwi cynnyrch fferm fwy traddodiadol.

Mae'r cais cyfan, ynghyd a manylion pellach ar Lammas i'w cael ar www.lammas.org.uk.

Nodyn Dyddiadur: Gwneud Synnwyr Busnes o Ddatblygiad Cynaladwy

Cynhadledd ar 12 Mehefin Gwesty Parc (Thistle), Park Place, Caerdydd. Gyda 50 y cant o gwsmeriaid yn nodi agweddon gwyrdd neu foesegol wrth brynu, mae busnesau yn gweld datblygiad cynaladwy yn fwy fel cyfle masnachol. Mae'r gynhadledd yma yn dangos drwy ymarfer da ac yn cynnig cyngor ymarferol a chytbwys. Trefnwyd gan Sefydliad Materion Cymru ar y cyd gyda Sefydliad y Cyfarwyddwyr gyda chefnogaeth Cynnal Cymru-Sustain Wales. Ffoniwch 029 2066 6606 neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk.

Nodyn Dyddiadur: Datblygu Siopau Pentref

Bydd CefnGwlad.org yn hwyluso digwyddiad rhwydweithio yn y Pafiliwn, Pontrhydfendigaid dydd Sul, 18 Mai. Trefnwyd gan berchnogion siopau pentref ar gyfer perchnogion eraill i gynnig cyfle i'r sawl sydd yn rhedeg siop pentref - neu sy'n ystyried gwneud - i drafod, rhannu profiadau a gwybodaeth a dysgu wrth eraill. Gwelwch www.cefngwlad.org/index.php?p=c82691c3.14.1.

NEWYDDION BYDOL

M&S i Waredu Bagiau Plastig Di-Dâl

Ffynhonnell: Edie

Bydd Marks and Spencers yn codi tal o 5c am fag plastig o'r neuadd fwyd o fis Mai, gydag elw yn mynd at elusen Groundwork. Cynhaliwyd treialon yng ngogledd Iwerddon a de orllewin Lloegr fel rhan o gynllun eco £200m y cwmni, Plan A, lle gwelwyd cwymp o 70% mewn defnydd o fagiau plastig.

Meddai Syr Stuart Rose, prif weithredwr M&S: 'Rydym am ei gwneud hi'n hawdd i'n cwsmeriaid chwarae'u rhan i helpu'r amgylchedd ac mae'r treialon wedi dangos bod pobl am weithredu.'

Meddai'r llefarydd gwastraff ac ailgylchu Adrian Ramsay 'Rydym yn credu mai'r unig ffordd i gyflawni gostyngiad difrifol a chynaladwy yw gyda deddfwriaeth lywodraethol i gyflwyno treth orfodol ar bob bag plastig ai defnyddiwyd.'

Mae cyflwyniad y tal yn cyd-daro gyda lansiad bag bwyd newydd a wnaed o ddeunyddiau 100% ailgylched.

Canada i Gyflwyno CCS Erbyn 2012

Ffynhonnell: Environment Canada.

I gydymffurfio a thargedau allyriant, bydd gofyn i brosiectau tanwydd ffosil a gorsafoedd pŵer glo ddefnyddio technoleg cipio a chadw carbon (CCS) o 2012 yn ôl llywodraeth Canada.

Ymrwymodd lywodraeth Canada i leihau allyriannau carbon 20% erbyn 2020 gyda Gweinidog Amgylchedd Canada, John Baird, yn ychwanegu y bydd y cynllun yn gofyn i bob safle echdynnu olew newydd roi CCS ar waith i fodloni'r targedau ac yn gwahardd unrhyw orsafoedd glo newydd.

Mae'r rheoliadau yn gofyn i ddiwydiant Canada leihau dwyster allyriannau carbon deuocsid (CO2) o 18% yn 2010 ac yna 2% yn flynyddol. Bydd cwmnïau yn medru dewis y dull mwyaf cost-effeithlon iddynt fodloni'r targedau, innau drwy leihau allyriannau yn eu gwaith, gwrthbwyso eu carbon, neu dalu C$15 am bob tunnell sydd dros y targed i gronfa dechnoleg y llywodraeth. Bydd y rheoliadau yn barod yn 2009 ac yn effeithiol o 2010.

Adroddiad Newydd yn Argymell Gwella Hen Dai

Ffynhonnell: Edie

Efallai i chi gredu bod ail-ddefnyddio bagiau plastig neu ddal y bws yn ddigonol i helpu lleihau newid hinsawdd - ond mae cymaint mwy fedrwch chi wneud. Mae adroddiad newydd yn goleubwyntio pwysigrwydd addasu ein cartrefi hefyd. Mae 'Your Home in a Changing Climate' yn egluro pam y dylai cartrefi yn Llundain, y dwyrain a de ddwyrain Lloegr ddod yn fwy effeithlon i leihau effeithiau newid hinsawdd, a sut gallant addasu i newidiadau sydd eisoes yn digwydd.

Mae'r adroddiad, lansiwyd gan Three Regions Climate Change Group, yn casglu bod addasu eang yn hanfodol gan fod yr hinsawdd wedi newid cymaint ers iddynt gael eu hadeiladu. Mae'n canolbwyntio ar y tri newidiad mwyaf sy'n achosi perygl - llifogydd, straen ar ddŵr a gorboethi - ac yn argymell dulliau cost-effeithlon i gynyddu hydwythdedd tai presennol i'r peryglon. Mae canllaw ar gael arlein ar sut i addasu cartrefi presennol o http://www.london.gov.uk/trccg.

Cod Amgylcheddol i Fusnes

Bu Cyfarwyddwr Amgylchedd Busnes y CBI, Michael Roberts, yn pwysleisio pwysigrwydd arolygu defnydd o ynni mewn adeiladau ym mis Mawrth wrth lansio Cod Amgylcheddol yr Investment Property Databank. Mae'r Cod yn darparu dull safonol i fusnesau gofnodi a dadansoddi defnydd o ynni, dwr a gwastraff a meincnodi canlyniadau yn erbyn adeiladau tebyg. Mae'n bosib ei ddefnyddio ar unrhyw fath o adeilad ar draws y byd. Lawrlwythwch eich copi yn ddi-dâl o www.ipdoccupiers.com/environmentcode.

Mae'r CBI hefyd wedi lansio canllaw i Dystysgrifau Perfformiad Ynni ar gyfer adeiladau busnes sydd ar gael o www.cbi.org.uk/property.

CAMAU BACH, EFFAITH MAWR

Llythyron ac Ebyst

****

Annwyl GloballySusDCymru

Mwynheais y ffilm [Taclo Newid Hinsawdd Gyda'n Gilydd] yn fawr. Rwy'n hoff o wrando ar Syr John Houghton yn siarad... mae'n braf iawn. Hoffais hefyd yr enghreifftiau positif.

Ar dai: fy syniad mawr i yw gwrthdroi polisi cynllunio presennol ac atal trefoli Cymru. Rydym am i bobl fyw a gweithio mewn pentrefannau neu ffermydd yn y wlad lle maent am fod ac yn agos i'r adnoddau naturiol maent eu hangen, ac atal gosod concrit dros ein trefi a phentrefi drwy adeiladu ar ofod gwyrdd, yn cynyddu yn erbyn dymuniadau'r trigolion ac yn ymddwyn mewn ffordd nad oes neb ei heisiau oherwydd blaenoriaethau hynafol.

Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn gais i droi'r wlad yn faestref, byddai hynny'n erchyll.

Ond byddai rhaid cynnig y tai i ymateb a gofynion y gymuned, nid ar y farchnad agored, felly byddai angen am farchnad eilaidd gyda meini prawf arbennig fel yn Jersey lle gallwch ond brynu os ydych yn lleol neu yn dod a budd angenrheidiol gyda chi, ac mae'n gweithio ac wedi ers degawdau.

Vicky Moller

Ffaith y Mis

Amser calch yw hi! Mae sment yn gyfrifol am 1500 miliwn tunnell o allyriannau blynyddol carbon deuocsid - sef 10% o gynhyrchiad carbon deuocsid y byd! Wrth droi at ddewisiadau arall, gellir cymryd camau mawr tuag at leihau faint o'r prif nwy tŷ gwydr yma sy'n dianc i'r atmosffer. (Calch Tŷ Mawr).

Gair i Gall y Mis

Ailgylchwch Boteli Gwydr! Yn Y DU, i gadw lan gyda'r galw am dai newydd rydym yn echdynnu tua 200 miliwn tunnell o dywod yn flynyddol yn dirywio adnoddau naturiol a bywyd mor. Mae cynhyrchwyr Cymraeg Ty-Mawr yn amnewid y tywod yn eu pridd galch, plastr a lloriau crit galch am wydr ailgylched, sydd hefyd yn creu defnydd o wastraff. Mae cyfradd ailgylchu gwydr y DU ymysg y gwaethaf yn Ewrop er arbedwyd 30 galwyn o olew am bob tunnell o wydr a'i hailgylchir.

Diolch i Joyce Gervis, Aberhonddu, am y gair yma sy'n ennill copi o Wales in Our Own Image a Llawlyfr Bach Gwyrdd Cymru.

Pol Piniwn

42%

ohonoch ag ymatebodd y pôl piniwn yn dweud byddech yn newid eich holl ffordd o fyw i leihau oltroed carbon eich cartref gan gynnwys siopa, bancio ac ynni moesegol; compostio a thyfu bwyd; a rhoi'r gorau i'r car neu hedfan.

Thema mis nesa yw iechyd, felly ewch i www.cynnalcymru.com ac atebwch hwn:

Beth yw eich barn ar y dyfeisiau ffitrwydd diweddaraf fel y 'Nintendo Wii' a'r 'Wii Fit'.

- Beth yw'r rheiny?
- Mae'n ymarfer corff da i bob oedran
- Beth yw'r pwrpas? Ewch mas i'r awyr iach!
- Maent yn rhoi pwysau ar blant a rhieni i brynu

Ewch i www.cynnalcymru.com i ateb y cwestiwn!

GARTREF… Awgrymiadau gwych i'ch helpu i arbed arian a'r blaned

Gwyliwch y gwagle
Gallai inswleiddio'ch waliau fod y ffordd fwyaf cost-effeithiol o arbed arian yn eich cartref. Mae tua 33% o'r gwres a gollir yn eich cartref trwy'r waliau, felly gallai eu hinswleiddio arbed cymaint â £130 i chi ar eich biliau gwres bob blwyddyn!

Am syniad disglair!
Mae bylbiau golau arbed ynni'n para tua 10 gwaith mor hir â bylbiau gwifren traddodiadol ac oherwydd eu bod yn defnyddio llai o ynni, maen nhw'n well o lawer i'r amgylchedd. Gallai newid i fylbiau arbed ynni arbed arian i chi hefyd - cymaint â £7 y flwyddyn. Ond cofiwch eu troi i ffwrdd pan fyddwch yn gadael y stafell.

Nwy glas, glas cartref
Gofynnwch i'ch cyflenwr ynni am newid i gynllun talu gwyrdd a sicrhau y buddsoddir rhan o'ch taliad biliau mewn ffurfiau adnewyddadwy o ynni fel gwynt, haul a dŵr.

Syniad uchel
Mae inswleiddio'ch croglofft yn un o'r ffyrdd symlaf o arbed ynni a gallwch chi hyd yn oed ei osod eich hun. Ynyswch eich croglofft heddiw ac ym mhen blwyddyn gallwch fod wedi arbed rhwng £180 a £220.

Storm mewn cwpan de
Os ydych chi'n gwneud paned, cofiwch ferwi dim ond cymaint o ddŵr ag y mae arnoch chi ei angen a helpwch chi i arbed £1 miliwn y flwyddyn i'r DU. Mae berwi tegell llawn yn defnyddio cymaint o drydan ac mae'n ei gymryd i oleuo'ch ystafell fyw am noswaith gyfan!

Nid hael ond hael gartref
Os yw'ch hen ddodrefn yn dal i fod yn ddefnyddiol, cofiwch fod sbwriel un person yn drysor i berson arall. Bydd eich elusen gymunedol leol yn falch o ddod o hyd i gartref da i'ch eitemau dieisiau.

Syniad hanner gwlyb
Arbedwch gostau dŵr a gwres trwy gael cawod yn lle baddon - mae cawodydd yn defnyddio llai na hanner y dŵr mae ei angen ar gyfer baddon. Os ydych yn wir chwantu am gael gorwedd yn y swigod, gallech bob amser gynilo dŵr trwy ei rannu â rhywun ac os ydych yn ymolchi wrth olau cannwyll, byddwch yn arbed trydan yn ogystal â rhoi pleser ymlaciol i chi'ch hun.

Trowch at ddiffodd
Mae taclau a adewir ar y botwm parod yn defnyddio arian er nad ydych chi'n eu defnyddio. Bob blwyddyn, mae'n cymryd dwy orsaf bŵer dim ond i gynhyrchu digon o bŵer ar gyfer taclau a adewir ar barod yn y DU. Arbedwch lwyth o arian trwy eu diffodd.

Cymhellion arbed arian
Yn lle gwario'ch arian i gyd ar beraroglau drud, annaturiol, beth am gymysgu olewau hanfodol, naturiol, fel rhosyn, fanila neu bren sandal â photel fach o ddŵr a'u chwistrellu ar eich gwresogyddion i greu gwynt hyfryd – rhyddheir yr arogl wrth iddyn nhw gynhesu.

Arbed dŵr
Mae toiledau sgwd dŵr deuol yn gallu lleihau defnydd dŵr o 20%, ond os nad oes un gyda chi, mae ffordd i achub y blaned ar eich liwt eich hun. Mae hen sestonau'n dal tua 9 litr o ddŵr felly rhowch fricsen yn eich seston a lleihewch faint y dŵr rydych chi'n ei wastraffu.

Y Rhewiad Mawr
Cadwch eich oergell a'ch rhewgell yn llawn a byddwch yn lleihau'ch bil trydan trwy ddefnyddio llai o ynni a cheisiwch beidio â gadael drws eich oergell ar agor hwy nag sydd ei angen – am bob munud mae'r drws ar agor, mae'n cymryd 3 munud i oeri yn ôl i'r tymheredd iawn!

Pa mor fawr yw'ch ôl troed?
Cewch wybod pa mor gynaladwy yw'ch ffordd chi o fyw a darganfod yr hyn y gallech ei newid am y ffordd rydych chi'n byw trwy gyfrifo'ch ôl troed eco ar-lein yn www.walesfootprint.org.

SAFBWYNT

Adeiladau Carbon Sero: Dyhead 2011

Haf Roberts

I sicrhau cyflenwad tai cynaladwy i Gymru yn y dyfodol, un o ddyheadau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw i bob adeilad newydd a'i hadeiladwyd yng Nghymru o 2011 gyrraedd safon garbon sero. Adroddiad gan Haf Roberts Ymddiriedolaeth Tai Gwalia ac aelod Bwrdd Cynnal Cymru.

Mewn diweddariad i Grŵp Ynni Adnewyddol y Cynulliad Cenedlaethol (NASEG) Medi diwethaf, nodwyd sawl nod tuag at wireddu amgylchedd adeiledig cynaladwy yng Nghymru. Enwyd y nodau hyn fel a ganlyn:

- Pob adeilad newydd yng Nghymru, a'i hadeiladwyd o 2011 ymlaen, i fod yn garbon sero,

- Gwneud BREEAM ‘Excellent’, neu gyfwerth, yn amod ar gyfer pob adeilad a'i hadeiladwyd gyda chymorth ariannu/ buddsoddiad/ neu waredu tir Llywodraeth y Cynulliad,
- Archwilio posibilrwydd addasu fframwaith BREEAM, neu debyg, i gefnogi ein nodau cynaladwyedd,
- Archwilio dichonolrwydd datganoli'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn rhagnodi fframwaith safonau ar gyfer pob adeilad, o le bynnag fe'u hariannwyd, yn arbennig ar gyfer Cymru.

Beth sydd wedi digwydd cyn belled?

Mae adrannau a chyrff noddedig Llywodraeth y Cynulliad wedi ychwanegu BREEAM 'Excellent' fel amod ariannu/ buddsoddi/ neu waredu tir ar gyfer adeiladau newydd; ac wedi dechrau enwi prosiectau allweddol enghreifftiol ar gyfer dod yn garbon sero o 2011.

Mae Llywodraeth y DU wedi creu Cod ar gyfer Cartrefi Cynaladwy i gartrefi newydd; seiliwyd ar BREEAM 'Ecohomes' ond gydag isafbwyntiau gorfodol ar gyfer ynni a dŵr ond heb unrhyw gyfraddau arbennig ar gyfer lleoliad a chludiant. Er ei fod hyd yn hyn yn wirfoddol yn ei natur, mae Llywodraeth y DU yn gweld y Cod fel sail ar gyfer gweithrediad cynnar o'r newidiadau i'r Rheoliadau Adeiladu sydd ar y gweill ar gyfer effeithlonrwydd ynni a dŵr.

Am y tro, ar gyfer pob adeilad a'i cefnogwyd gan ariannu/ buddsoddiad/ neu warediad tir Llywodraeth y Cynulliad, defnyddir y diffiniad o garbon sero a cheir yn y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaladwy ar gyfer pob math o adeilad. Mae Llywodraeth y Cynulliad, ar y cyd gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau eraill, yn datblygu diffiniad gwreiddiol o garbon sero ar gyfer adeiladau annomestig.

Bu ymgynghoriad gyda budd-deiliaid ar brif ofynion gwireddu carbon sero i bob adeilad newydd, gan gynnwys argaeledd y dechnoleg a chadwyni cyflenwi, yr angen i wella sgiliau yn y diwydiant adeiladu (proffesiynol a masnachol) a fforddiadwyedd. Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i edrych ar yr asesiad a fframwaith cyfreithiol i wireddu carbon sero ac ar nodau ehangach cynaladwyedd Llywodraeth y Cynulliad, gan gynnwys p'un a'i i hyrwyddo Cod ar gyfer Cartrefi Cynaladwy yn hytrach na BREEAM 'Ecohomes'.

Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu addasu eu Rheoliadau Adeiladu i wneud carbon sero yn orfodol mewn cartrefi newydd o 2016 ac yn edrych ar ddichonolrwydd gwneud rhywbeth tebyg i adeiladau newydd arall ond nid, o angenrheidrwydd, gyda'r un diffiniad o garbon sero neu i'r un amserlen. Bydd yr addasiadau yma yn effeithio ar Gymru hefyd os na chaiff y Rheoliadau eu datganoli, mae'r sgwrs yn mynd yn ei flaen ar hyn. Yn wir, byddai symud yn gynt na Lloegr i wneud carbon sero yn orfodol i bob sector, lle bynnag y daw eu cyllid ohono, yn gofyn am ddatganoli ac addasu'r Rheoliadau.

Prydain Sero Carbon?

Cyhoeddodd y Ganolfan Dechnoleg Amgen (CAT) adroddiad 'zerocarbonbritain' y llynedd, sydd yn manyli sut fedrai Prydain waredu allyriadau tanwydd ffosil ymhen ugain mlynedd a thorri'r ddibyniaeth ar ynni mewnforiedig. Mae'n dangos sut gallwn gyflawni hyn drwy haneri ein galw am ynni a gosod sustemau ynni adnewyddol ar raddfa fawr. Ymchwiliwyd ac ysgrifennwyd yr adroddiad drwy gyfres o waith gydag academyddion ac ymgynghorwyr ac yn fe'u hadolygwyd gan arbenigwyr a chydweithwyr yn y maes.

Mae'r adroddiad yn egluro bod adeiladau yn cyfri am 75% o alw Prydain am wres; ond petai effeithlonrwydd yn ynysiad a chynllunio adeiladau newydd, byddai hyn yn gostwng i bron sero. Mae strategaeth 'zerocarbonbritain' yn torri'r galw am ynni mewn adeiladu o 38%. Awgryma hefyd gosod ynysiad mewn tai sy'n bodoli eisoes a rhaglen o ddymchwel ac amnewid yr adeiladau gwaethaf.

Yr Amgylchedd Adeiledig a Newid Hinsawdd

Yn fwy diweddar, gosodwyd gorchwyl i Gomisiwn Datblygu Cynaliadwy (SDC) Cymru mewn partneriaeth a Chomisiwn Cynllunio (DC) Cymru i edrych ar y prif ymyriadau a rhwystrau tuag at gyrraedd adeiladau newydd sero carbon erbyn 2011 a chanfod sut gall yr amgylchedd adeiledig gyfrannu at darged blynyddol Cymru o leihad mewn allyriannau carbon o 3%.

Bydd yr SDC a DC yn gweithio gyda grŵp o brif budd-ddeiliaid i greu rhwydwaith neu 'glymblaid o'r bodlon' o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol, i edrych ar sut i daclo newid hinsawdd trwy'r amgylchedd adeiledig.

Am wybodaeth bellach cysylltwch â:

Haf Roberts, Grŵp Gwalia Cyf: Abertawe, ffoniwch 01792 460609, e-bostiwch haf.roberts@gwalia.com neu gwelwch www.gwalia.com/

Grŵp Ynni Adnewyddol y Cynulliad Cenedlaethol: (NASEG) Secretariat, Dulas Ltd, Machynlleth, ffoniwch 01654 705000 neu e-bostiwch drwy'r wefan www.naseg.co.uk/contact/contact.html.

Comisiwn Datblygu Cynaladwy (SDC): e-bostiwch wales@sd-commission.org.uk.

Comisiwn Cynllunio: ffoniwch 029 2045 1964 neu e-bostiwch info@dcfw.org.

Canolfan Dechnoleg Amgen (CAT): adroddiad 'zerocarbonbritain', e-bostiwch info@zerocarbonbritain.com neu gwelwch www.zerocarbonbritain.com/content/view/37/72/.

DIGWYDDIADAU – BETH SY' MLAEN

Mai

1	Darganfod Planhigion Bwyd Anarferol. Wythnosol nes 10 Gorffennaf. Cysylltwch a Michele Fitzsimmons ar ediblelandscaping@googlemail.com neu'r Canolfan Dysgu Gydol Oes ar 0292087 0000.
8	'Tlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf.'RhCCG a'i trefnwyd gan WCVA. E-bostiwch hyfforddiant@wcva.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1723. GDd Cymru. Lleoliad i'w gadarnhau.
9	'Tlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf.'RhCCG a'i trefnwyd gan WCVA. E-bostiwch hyfforddiant@wcva.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1723. GO Cymru. Lleoliad i'w gadarnhau.
10	Dylunio i Dyfu drwy'r Flwyddyn. Wythnosol am 12 wythnos. Cysylltwch

	a Michele Fitzsimmons ar ediblelandscaping@googlemail.com.
12	'Annog Cyfranogiad Cymunedol mewn Prosiectau Cynaladwy', gweithdy; Canolfan yr Urdd Bala 10-4yh. Cysylltwch a Jetske Germing ar 01834-862101.
13-14	7fed Uwch-gynhadledd Busnes Cyfrifol, Ethical Corporation, Llundain Gwelwch http://www.ethicalcorp.com/rbs/?t=cr.
15	Annog Cyfranogiad Cymunedol mewn Prosiectau Cynaladwy', gweithdy; Gwesty'r Castell, Llanymddyfri 10-4yh. Cysylltwch a Jetske Germing ar 01834-862101.
15-16	2 ddydd: Cyflwyno Calch a Phlastr Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.
16	'Tlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf.'RhCCG a'i trefnwyd gan WCVA. E-bostiwch hyfforddiant@wcva.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1723. Caerdydd. Lleoliad i'w gadarnhau.
16-18	Penwythnos 'Power Up'. Penwythnos preswyl Hawliau a Chyfiawnder, Birmingham. Cysylltwch a Jenny Lopez, ar 020 7566 1723 neu ebostiwch powerup@foe.co.uk.
17	Creu paent naturiol a gwneud blociau cob, gweithdai yn ystod Wythnos Dysgwyr, Ty Gwyrdd St Fagans, Caerdydd. Cysylltwch a Anna Haslock, Rounded Developments ar02920403399 neu gwelwch www.rounded-developments.org.uk.
18	'Datblygu Siopau Pentref' digwyddiad rhwydweithio. Y Pafiliwn, Pontrhydfendigaid. Gwelwch www.cefngwlad.org/index.php?p=c82691c3.14.1.
20	Seminarau Cynhwysiant Ariannol; Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, GDd Cymru . Ebostiwch enquiries@communitiesfirst.info neu ffoniwch 0800 587 8898.
24 - 1	Teithiau meithrinfa'r adar dwr a digwyddiadau gyda'r cywion bach; WWT Canolfan Gwlypdiroedd Cymru. Gwelwch www.wwt.org.uk/ducklings.
28	Byw yn yr 21ain Ganrif: Atebion i Newid Hinsawdd. Ty Bryngarw, Parc Wledig Bryngarw. Cysylltwch a Angharad@sustainablewales.org.uk neu ffoniwch 01656 783405.

Mehefin

1	Teithiau meithrinfa'r adar dwr, pob dydd Sul ym Mehefin; WWT Canolfan Gwlypdiroedd Cymru. Gwelwch www.wwt.org.uk/ducklings.
3	Seminarau Cynhwysiant Ariannol; Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, DO Cymru. Ebostiwch enquiries@communitiesfirst.info neu ffoniwch 0800 587 8898.
4	Seminarau Cynhwysiant Ariannol; Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, GO Cymru. Ebostiwch enquiries@communitiesfirst.info neu ffoniwch 0800 587 8898.
6	Plastr Calch, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.
7	Cynhadledd Masnach Deg Cymru; 10yb Campws Caerleon, Prifysgol Casnewydd, Caerleon. Cysyltwch a Rowan ar rothomas@oxfam.org.uk neu ffoniwch 0870 010 9007.
7-15	Wythnos Bioamrywiaeth Cymru - Dewch yn nes at fywyd gwyllt gwych Cymru! Cydlynwyd gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Am galendr rhyngweithiol o ddigwyddiadau gwelwch www.bioamrywiaethcymru.org.uk.
12	'Gwneud Synnwyr Busnes o Ddatblygiad Cynaladwy'; Gwesty Parc (Thistle), Park Place, Caerdydd. Sefydliad Materion Cymru, Sefydliad

	y Cyfarwyddwyr a Cynnal Cymru. Ffoniwch 029 2066 6606 neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk.
12	'Tlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf.'RhCCG a'i trefnwyd gan WCVA. E-bostiwch hyfforddiant@wcva.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1723. Abertawe. Lleoliad i'w gadarnhau.
16-20	'Reconnection 2008': Cwrs wythnos yn Ardal y Llynnoedd, gyda Jonathon Porritt, 'i bara am oes!'. Cysylltwch a m.trievnor@forumforthefuture.org.uk neu +44(0)1242 266 778. Gwelwch www.forumforthefuture.org.uk.
17-19	Hyfforddiant i hyfforddwyr addysg datblygu gynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Hyfforddwyr/tiwtoriaid a rhywfaint o brofiad o ADCDF, Powys. Ebostiwch dominic@cyfanfyd.org.uk.
18	Cynhadledd Coedwigoedd a Newid Hinsawdd, Caerdydd. Cysylltwch â Delyth Davies ar delyth@fbagroup.co.uk.
19	'Tlodi Plant a Chymunedau yn Gyntaf.'RhCCG a'i trefnwyd gan WCVA. E-bostiwch hyfforddiant@wcva.org.uk neu ffoniwch 029 2043 1723. DO Cymru. Lleoliad i'w gadarnhau.
19-20	Walydd Cerrig Sych, Calch Ty-Mawr. Ebostiwch mike.scruby@lime.org.uk.
20	Seminarau Cynhwysiant Ariannol; Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, DDd Cymru. Ebostiwch enquiries@communitiesfirst.info neu ffoniwch 0800 587 8898.
24	Seminarau Cynhwysiant Ariannol; Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau yn Gyntaf, De Cymru. Ebostiwch enquiries@communitiesfirst.info neu ffoniwch 0800 587 8898.